



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Gwerthusiad Economaidd o Sector Bwyd a Diod Cymru – Diweddariad 2017

Rhagfyr 2017

Mae copi o'r adroddiad hefyd ar gael yn Saesneg



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad blynyddol ar berfformiad economaidd sector bwyd a diod Cymru hyd at 2017. Mae'n diweddarau'r gwerthusiad economaidd a luniwyd gan Brookdale Consulting yn 2015 a 2016.

Mae hefyd yn cynnig adolygiad canol tymor o gynnydd yn y sector ers llunio Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru, 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'.

Gan ddefnyddio data swyddogol ac amcangyfrifon y diwydiant, mae'r adroddiad yn rhoi gorolwg o'r is-sectorau o'r gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ystyried yr is-sectorau canlynol:

Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio

Cynhyrchu Bwyd a Diod

- Is-sector Cynnyrch Becws
- Is-sector Cig a Chynnyrch Cig
- Is-sector Cynnyrch Llaeth
- Is-sector Diod
- Is-sector Grawn a Startsh
- Is-sector Bwyd Anifeiliaid
- Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion
- Is-sector Bwyd Môr
- Is-sector Olew a Braster
- Is-sector Cynnyrch Arall

Is-sector Cyfanwerthu Bwyd

Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod

Is-sector Arlwyyo




Cadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r gadwyn cyflenwi bwyd a diod yng Nghymru'n:

- cynnwys cynhyrchu craidd, gweithgynhyrchu, adwerthu, cyfanwerthu ac arlwyio sydd ddim yn breswyl
- cyflogi **240,200** (2016) i fyny o 222,400 – gweler y siart cylch
- mewn **27,575 uned busnes** (2016) i lawr o 27,585 (2015)
- gyda throsiant¹ o **£19.1bn** (2015)
- **GYC² o £4.5bn** (2015) ac
- **allforio £0.436bn (2016) i fyny 8% o £0.404bn (2015)** – Iwerddon, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg oedd y 5 prif gyrchfan
- Roedd Gwerthiant Adwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru yn £5.4bn (2016)



Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 18% o holl gyflogaeth Cymru
- 22% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 18.4% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 13.5%).
- 4.2% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae mwyafrif yr unedau busnes bwyd a diod yng Nghymru (85%) yn cyflogi llai na 5 o bobl. Mae 75 busnes yn cyflogi dros 250 o bobl.

Crynodeb o ystadegau Sector Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	27,575	437,020	6.3%
Cyflogaeth 2016	240,200	4.253 (Prydain)	5.6% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	40%	47% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£19.1bn	£458bn	4.2%
GYC 2015	£4.5bn	£114bn	3.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth drwyddi draw wedi cynyddu ychydig ers y llynedd - gyda thwf mewn cyfanwerthu yn dadwneud y gostyngiad mewn cynhyrchu bwyd a diod.

Mae nifer yr unedau busnes wedi parhau'n eithaf sefydlog ar 27,600 uned.

Mae proffil cyflogaeth pob un o'r is-sectorau yn wahanol iawn:

- Perchnogion yn gweithio yw 75% o'r swyddi amaeth a physgota
- Mae 94% o'r swyddi yn rhai llawn amser yn y sector cynhyrchu

¹ Cyfanswm gwerthiant cyfun ar gyfer holl fusnesau'r gadwyn gyflenwi

² Gwerth Ychwanegol Crynswth – mesur perfformiad economaidd a ffafrir gan y Llywodraeth.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Mae swyddi rhan amser yn cyfrif am 70% o swyddi adwerthu

'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Ffermio

Crynodeb o'r Sector

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio'r 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Diod fel a ganlyn:

- Cynnwys cynhyrchu craidd a gweithgynhyrchu'n unig
- **31,800 o weithwyr** heb gynnwys hunangyflogedig (2016) i fyny o 30,400 yn 2015
- ond **79,900 o weithwyr** o gynnwys yr holl weithwyr amaethyddol (2016) i lawr o 85,625
- mewn **14,205 uned busnes lleol** (2016) i fyny o 14,195 yn 2015
- gyda **throsiant o £6.9bn** (2016) i fyny o £6.1bn yn 2015 a
- **GYC o £1.61bn** (2015) i fyny o £1.54 yn 2014

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 2.7% o holl gyflogaeth Cymru
- 11.6% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 5.9% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 3.3%).
- 5.5% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae dros 97% o unedau busnes y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio yng Nghymru'n cyflogi llai na 10 o bobl yn sgil cynnwys ffermydd. Mae 150 busnes mawr yn y sector, yn cyflogi dros 250 o bobl, i fyny o 120 (2016).

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	14,205	157,905	9%
Cyflogaeth 2016 (ac eithrio hunangyflogaeth)	31,800	681,900	4.7%
Cyfran Cyflogaeth Lawn Amser	81%	84%	-
Trosiant 2016	£6.9bn	£144.3bn	4.7%
GYC 2015	£1.61bn	£38.4bn	4.2%
Gweithwyr gyda'r cymwysterau uchaf ar Lefel 4 ac uwch	24%	26%	-
Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi tyfu'n gryf ers 2012.

Cafwyd ychydig o adferiad yn y nifer sydd wedi'u cyflogi mewn busnesau mawr (dros 50) yn ôl i lefelau 2008.

Cafwyd ychydig o adferiad yn nifer y busnesau mwyaf (250+ o weithwyr) ond mae nifer yr unedau busnes drwyddi draw yn weddol sefydlog ac yn is na'r lefel cyn y dirwasgiad.



Cynhyrchu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru'n:

- cyflogi **20,400 o bobl** (2016) i lawr o 24,100 (2015)
- mewn **565 uned busnes** (2016) i fyny o 555 yn 2015
- gyda **throsiant o £4.8bn** (2015) i fyny o £4.2bn yn 2014
- **GYC o £1.49bn** (2015) i fyny o £1.26bn (2014)
- **122 o enillwyr Gwobr Great Taste** (2016) i lawr o 174 yn 2015
- **14 cynnyrch gydag enw gwarchoddedig** (2016) i fyny o 4 yn 2015.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 1.57% o holl gyflogaeth Cymru
- 0.5% gyfanswm unedau busnes Cymru
- 4.6% o drosiant economi busnes heb gynnwys cyllid yng Nghymru. (Cyfartaledd y DG yw 2.6%).
- 4.3% o GYC economi Cymru sydd ddim yn cynnwys busnesau ariannol
- 5.4% o drosiant sector bwyd a diod y DG

Mae 67% o unedau busnes cynhyrchu bwyd a diod Cymru yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 28% yn cyflogi rhwng 10 a 249. Mae 25 busnes mawr yn y sector, yn cyflogi dros 250 o bobl. Mae lefelau sgiliau yn is na gweddill y DG.

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	565	11,305	5.0%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr	15%	13%	-
Cyflogaeth 2016	20,400	407,500 (Prydain)	5.0%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	94%	90% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£4.8bn	£88bn	5.4%
GYC 2015	£1.45bn	£24.7bn	5.9%
Gweithwyr gyda'r cymwysterau uchaf ar Lefel 4 ac uwch	22%	24%	-
Cyflog Blynyddol (Cyfartaledd Cynhyrchu Bwyd) 2016	£19,096	£21,224	-
Buddsoddiad Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae **hyder busnes yng Nghymru**³ yn uwch ar 55 (Ebrill 2017) o'i gymharu â 53.1 (Mai 2016) a 58.6 (Mai 2015). Mae gweithgaredd busnes Cymru wedi tyfu i ymateb i archebion newydd, a lefelau staffio yn uwch i gwrdd â'r galw. Mae pwysau chwyddiant wedi gostwng a thra bo ansicrwydd yn sgil Brexit, mae gwendid y bunt yn rhoi hwb i archebion allforio.

³ Yn ôl Arolwg Mynegai Rheolwyr Prynu Rhanbarthol Banc Lloyds



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Mae'r sector yn tyfu yn nhermau trosiant ac unedau busnes a chyflogaeth yn gostwng ychydig. Mae hyn yn awgrymu fod **cynhyrchiant y sector drwyddi draw yn cynyddu**. Mae cynhyrchiant bwyd a diod Cymru yn cynyddu tra'n parhau'n statig ar lefel y DG.

Cyfraddau Genedigaeth a Marwolaeth Busnesau Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Mae cyfradd genedigaeth busnesau Cymru ar gyfer y sector yn is na chyfradd y DG. Roedd 55 busnes newydd yn y sector yng Nghymru yn 2016 ar gyfradd o 11%. Mae hyn yn cymharu â 1,455 yn y DG yn 2016 ar gyfradd o 15%.

Mae cyfradd marwolaeth busnesau Cymru hefyd yn is na'r DG. Daeth 45 busnes i ben yng Nghymru, ar gyfradd o 9%. Mae hyn yn cymharu â 13% yn y DG (1,205).

Roedd cyfradd goroesi 5 mlynedd i fusnesau yn y sector yng Nghymru yn 56%. Mae hyn yn cymharu â 45% yn y DG. Dim ond De Ddwyrain Lloegr sydd â chyfradd uwch, ar 58%.

Dangosyddion Newid Hinsawdd Bwyd a Diod Cymru

Daw dangosyddion newid hinsawdd bwyd a diod Cymru o ffynonellau data swyddogol ar lefel y DG. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr gan wahanol sectorau yn cael eu cyfrif gan gangen Cyfrifon Amgylcheddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr hyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo nwyon tŷ gwydr ar gyfer pob gweithiwr ar lefel Prydain, gan gyfrifo lefel Cymru fel cyfran yn ôl cyflogaeth yn yr is-sector. Mae'r canlyniadau i'w gweld isod. Maent yn dangos mai grawn a startsh sydd â'r allyriadau uchaf i bob gweithiwr, ac mai cig sydd â'r isaf. O ran cyfanswm yr allyriadau, yr is-sector 'Arall' sydd uchaf, gyda chig a grawn a startsh yn dilyn.

Is-sector	Amcangyfrif o Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2016 (mynegi fel swm sy'n cyfateb i '000 tonnell o CO ₂)			
	Cymhareb Nwy Tŷ Gwydr i bob gweithiwr	Cymru	Prydain	Cymru fel % o Brydain
Cig	0.014	77.8	1103.7	7%
Bwyd Môr a Ffrwythau a Llysiau	0.020	5.1	1010.0	1%
Olew a braster	0.050	0.0	93.8	0%
Cynnyrch Llaeth	0.037	35.3	817.6	4%
Grawn a Startsh	0.061	60.9	609.3	10%
Becws	0.012	55.0	1169.3	5%
Bwyd 'Arall'	0.016	90.2	1542.2	6%
Bwyd Anifeiliaid	0.025	14.8	346.2	4%
Diodydd Alcoholig	0.047	36.0	1293.8	3%
Diodydd Meddal a Dŵr	0.017	9.5	164.6	6%
Cyfanswm Diodydd		45.5	1458.4	3%

Sylwer: Mae Nwy Tŷ Gwydr i bob Gweithiwr yn seiliedig ar ddsrannu allbwn Nwy Tŷ Gwydr y DG i Brydain ar sail Unedau Busnes (2015) a rhannu swm Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Prydain yn ôl lefelau Cyflogaeth yr Is-sectorau yn 2015.



Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector cig a chynnyrch cig yng Nghymru wedi:

- cynhyrchu 9.810m o ddefaid, 1.134m o wartheg, 23,200 o foch a 4.3m o ieir yn 2016 (9.504m o ddefaid, 1.119m o wartheg, 25,300 o foch a 4.5m o ieir yn 2015)
- lladd 3.48m o ddefaid, 147,000 o wartheg, 31,400 o foch a 104m o ieir yn 2016 (3.41m o ddefaid, 160,000 o wartheg, 39,600 o foch a 104m o ieir yn 2015)
- cynhyrchu 64,200 tonnelli o gig defaid; 45,400 tonnelli o gig eidion, 2,600 tonnelli o gig moch a 152,000 tonnelli o gig dofednod yn 2016 (65,300 tonnelli o gig defaid; 47,700 tonnelli o gig eidion, 3,200 tonnelli o gig moch a 152,000 tonnelli o gig dofednod yn 2015)
- cyflogi **5,500 o bobl** (2016) i lawr o 6,000 yn 2015
- mewn **65 uned busnes** (2016) yr un fath a 2015
- gyda **throsiant o £1,276m** (2015)
- **GYC o £208m** (2015) i fyny o £181m (2014)
- **yn allforio £161m o gig coch** (HCC 2016 i fyny o £157m yn 2015 a £90m yn 2014) gyda **chig oen yn cyfrif am £111m a chig eidion am £50m (£106m a £51m yn 2015)**
- **Mae ffigyrau'r HMRC yn awgrymu fod gwerth £102m o allforion cig o gwmnïau Cymru** (2016) i fyny o **£82m** (2015) Ffrainc, Iwerddon, Yr Almaen, Belg a'r Eidal oedd y 5 prif gyrchfan (2016). Roedd allforion anifeiliaid byw yn £21m ychwanegol (2016) i fyny o £12m (2015) y Dwyrain Canol, Yr Iseldiroedd, Asia (Siapan a De Korea), Gwlad Pwyl a'r Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan (2016)
- **gwerthiant adwerthu cig Cymreig o £957m** (2015)
- mae 51 safle wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer cig coch (57 yn 2016), 9 ar gyfer dofednod, 12 ar gyfer helgig (13 yn 2016), 13 ar gyfer helgig gwyllt (11 yn 2016) a
- sgoriau archwilio safleoedd ASB: 58% Da (34% yn 2016); 42% Cyffredinol Dderbyniol (61% yn 2015)
- yr is-sector mwyaf yng Nghymru, ar y cyd â 'Phrosesu bwyd arall' o fewn cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn ôl cyflogaeth.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 27% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 12% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	65	1,140	5.7%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	23%	20%	-
Cyflogaeth 2016	5,500	78,000 (Prydain)	7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	98%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£1,276m	£17,087m	7.5%
GYC 2015	£208m	£3,550m	5.9%
GYC y pen 2015	£34,700	£41,500	84%
Gwerthiannau Adwerthu 2016 Kantar Worldpanel	£957m	£16,078m	6.0%



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Ar ôl cyfnod o dwf mewn cyflogaeth, mae'r data diweddaraf yn dangos fod cyflogaeth wedi gostwng o 6,600 yn 2014 i 6,000 yn 2015 a nawr i 5,500 yn 2016⁴. Er gwaethaf hyn, mae cig a chynnyrch cig yn parhau'n un o sectorau mwyaf Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru o ran cyflogaeth, ar y cyd â Chynnyrch Bwyd Arall. Mae nifer y busnesau wedi parhau'n sefydlog ar 65.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae lefelau prynu cig carcass gan aelwydydd wedi gostwng 15% yng Nghymru dros y degawd diwethaf, ond mae hyn yn adferiad o 2% ar ffigwr y llynedd yn sgil cynnydd o 7% yn 2015. Mae'r gostyngiad mwyaf mewn cig eidion a llo (cyfartaledd 3 blynedd 9% yn uwch) a chig oen a defaid yn parhau i ostwng.
- Mae cig moch wedi parhau'n gyson yng Nghymru tra'n parhau i ostwng yn y DG
- Mae'r cynnydd mewn prynu cig iâr wedi lleihau yng Nghymru o 16% i 11%.
- Mae selsig wedi gostwng ers y llynedd yng Nghymru a thwf selsig yn y DG wedi troi'n ostyngiad
- Mae prydau parod a chynnyrch cyfleus wedi dal eu tir yng Nghymru a phryniant aelwydydd Cymru'n uwch ar gyfartaledd y pen na chyfartaledd y DG (20g yr wythnos).

Cyfartaledd Prynu Cig a Chynnyrch Cig gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Cig Carcas	222	188	-15%	230	188	-18%
Cig Eidion a Chig Llo	102	98	-4%	118	100	-15%
Cig Oen a Chig Dafad	59	30	-49%	51	36	-29%
Cig Moch	61	61	0%	61	53	-13%
Cig a Chynnyrch Cig ac eithrio Cig Carcas	848	771	-9%	820	756	-8%
Cig Iâr heb ei goginio	151	167	11%	165	185	12%
Selsig	64	52	-19%	57	55	-4%
Prydau parod a chynnyrch cig cyfleus	161	184	14%	157	164	4%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Cyfanswm gwariant Cymru ar gig ffres oedd £337m yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, 1.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd gostyngiad yn y gwariant i bob prynwr o £206.63 y flwyddyn i £202.49. Mae'r gostyngiad oherwydd fod y cyfartaledd prisiau'n is na'r flwyddyn flaenorol.
- Prynwyd £123m o gig eidion ffres mewn safleoedd adwerthu yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, 5.6% yn uwch y flwyddyn; £34m o gig oen, 7.7% yn is y flwyddyn; a £40m o gig moch, 6.7% yn is y flwyddyn.
- Cwmpodd y farchnad byrgyrs ffres yn ôl i £14m ar ôl twf cryf yn 2015. Roedd nifer y pryniannau'n uwch, gyda gostyngiad mewn cyfartaledd pris yn gyrru gostyngiad mewn cyfanswm gwariant.

⁴ Nodyn: Mae mynediad at Ddata Cyflogaeth wedi newid fel mai dim ond ffigyrau wedi'u rowndio sydd i'w gweld. Gall hyn orliwio maint y newidiadau mewn cyflogaeth o flwyddyn i flwyddyn.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Y gwariant adwerthu ar ddofednod a gêm ffres yng Nghymru oedd £172m, 1% yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond yn dal i gyfrif am 51% o gyfanswm gwerthiant cig ffres yn 2016.

Is-sector Cynnyrch Becws

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector cynnyrch Becws yng Nghymru'n:

- cyflogi **4,750 o bobl** (2016) i lawr o 6,000 yn 2015
- mewn **180 uned busnes** (2016) yr un fath â 2015
- gyda **throsiant o £545** (2015)
- **GYC o £234m** (2015) i fyny o £157M (2014)
- **Gwerthiant adwerthu Cymreig o £509m** (2016)
- y trydydd is-sector mwyaf o fewn cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru o safbwynt swyddi

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 25% o holl swyddi Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 32% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Is-sector Becws Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	180	3,310	5.4%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	9%	10%	-
Cyflogaeth 2016	4,750	101,000 (Prydain)	4.7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	94%	86% (Prydain)	
Trosiant 2015	£545m	£11,395	4.8%
GYC 2015	£234m	£3,909m	5.0%
GYC y pen 2015	£39,000	£38,100	102%
Gwerthiannau Adwerthu Cymru 2016	£509m	£8,521m	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth rhwng 2015 a 2016, o'i gymharu â thwf o 1% mewn cyflogaeth ym Mhrydain.

Mae mwyafrif helaeth y busnesau (70%) yn rhai micro, gyda llai na 9 o weithwyr, i lawr o 75% yn 2015.

Mae'r rhai sy'n cyflogi dros 50 o bobl yn cyfrif am 11% o'r unedau busnes.

Tueddiadau Tymor Hir Defnyddwyr

- Mae'r gostyngiad tymor hir mewn bara (wedi'i yrru gan fara gwyn) wedi sefydlogi yn 2015 yng Nghymru â'r DG. Mae pryniant gan aelwydydd wedi gostwng chwarter ers 2002/03.
- Does fawr ddim newid yn y gostyngiad bach tymor hir mewn cacennau, byns a phastai, na bisgedi a thafelli cras yn 2015.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Cyfartaledd Prynu Bara a Chynnyrch Becws gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Bara	821	584	-29%	757	568	-25%
Cacennau, Byns a Phastai	154	153	-1%	164	150	-9%
Bisgedi a Thafelli Cras	167	164	-2%	174	164	-6%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd y gwariant adwerthu ar gynnyrch becws yng Nghymru yn £314m yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2015, i fyny 1%. Roedd cyfanswm cyfaint 1.7% yn uwch y flwyddyn, a siopwyr yn prynu cyfaint uwch.
- Mae cyfanswm gwariant ar fara'n parhau i ostwng, £106m yn is yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, 3% yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd y gwariant ar fisgedi yn is yn y flwyddyn hyd at Ionawr, 2.7% y flwyddyn yn is ar £159m. Serch hynny, roedd yn dal yn uwch na gwerth 2015.



Is-sector Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector diod yng Nghymru yn:

- cynnwys cwrw, seidr, wisgi, dŵr a diodydd meddal
- cyflogi 1,400 o bobl yn 2016, i fyny o 1,100 yn 2015.
- mewn **90 uned busnes** (2016) i fyny o 85 yn 2015 er bod amcangyfrifon y diwydiant yn awgrymu 200 sy'n amlinellu twf sylweddol mewn busnesau bach
- gyda **throsiant o £816m** (2015)
- **GYC o £361m** (2015) i fyny o £357 (2014)
- **Gwerthiannau Adwerthu Cymru o £946** (2016) ac
- **Allforion o £32m** (2016) i **lawr o £39m** (2015) Yr Eidal, Ffrainc, Gogledd America, Iwerddon ac Asia oedd y 5 prif gyrchfan (2016).

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 6.7% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 16% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Diod

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	90	2,000	4.5%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	6%	7%	-
Cyflogaeth 2016	1,400	36,500 (Prydain)	4%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	90%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2015 (DG 2013)	£816m	£13,811m	5.9%
GYC 2016 (DG 2013)	£361m	£4,336m	6.6%
GYC y pen 2015	£320,900	D/B	-
Gwerthiannau Adwerthu 2016 Kantar Worldpanel	£946m	£29,820	3.7%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel – Sylwer nad oedd trosiant a GYC y DG wedi'i ddatgelu ar gyfer 2015

Tueddiadau

O Sylfaen sefydlog o 1,500, cododd cyflogaeth i uchafswm o 1,900 yn 2014 cyn gostwng yn 2015 i 1,100 a chodi'n ôl i 1,400 yn 2016.

Mae nifer y busnesau wedi parhau i dyfu, gan gyrraedd 90, er bod hyn yn is nac amcangyfrif y diwydiant. Mae gan 82% o'r busnesau lai na 10 o weithwyr, gyda llawer o'r twf mewn unedau busnes trwy gwmnïau newydd ar lefel micro

Ni does unrhyw fusnes bellach yn y categori 50-249 o weithwyr.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Mae Cymru wedi dechrau gweld rhan o'r twf yn y farchnad Dŵr Mwynol neu Ddŵr Ffynnon, i fyny 60% rhwng 2014 a 2015. Drwyddi draw, mae lefel prynu gan aelwydydd 25% yn uwch na 2002/03 yng Nghymru a 61% yn y DG.
- Mae diodydd medal wedi parhau i ostwng ar lefel y DG, gyda lefel prynu hefyd yn is yng Nghymru.
- Mae diodydd alcoholig yn is yn y DG a Chymru na 2002/03. Serch hynny, rhwng 2014 a 2015 roedd lefel prynu diodydd alcoholig yng Nghymru 10% yn uwch y flwyddyn, a heb newid ar lefel y DG.

Cyfartaledd Prynu Diodydd gan Aelwydydd (ml yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Dŵr Mwynol neu Ddŵr Ffynnon	232	288	24%	210	340	61%
Diodydd Meddal	1,767	1,647	-7%	1,757	1580	-10%
Diodydd Alcoholig	759	677	-11%	726	682	-6%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar alcohol yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017 3.6% yn is i £705m. Serch hynny, roedd cyfaint yn uwch na gwerth 2015.
- Roedd gwariant ar gwrw a lager i lawr 4.2% i £126m. Parhaodd cynyddodd gwariant ar win yn gyson ar £259m, a pharhaodd gwin pefriog i dyfu, 17% yn uwch i £41m.
- Parhaodd gwariant ar ddiodydd meddal i ostwng, 2.7% y flwyddyn yn is ar £199m. Cynyddodd gwariant ar ddŵr 10% i £26.6m, 22% yn uwch na 2015.



Is-sector Llaeth ac Wyau

Crynodeb o'r Sector

Mae gan y sector Llaeth yng Nghymru:

- 298,000 o wartheg llaeth mewn 1,726 buches (300,451 o wartheg mewn 1,744 buches yn 2016).
- cynhyrchu 1.82bn litr o laeth y flwyddyn (1.89bn yn 2015)
- cyflogi **1,000 o bobl** ym maes prosesu (2016) i lawr o 1,600 yn 2015
- mewn **60 uned busnes** (2016) i fyny o 55 yn 2015
- gyda **throsiant o £322m** (2015)
- **GYC o £79m** (2015) i fyny o £55m (2014)

Mae gan y sector Wyau yng Nghymru

- **1.77m o ieir** ar gyfer cynhyrchu wyau yn 2016 (1.6m yn 2015), 74% yn cynhyrchu wyau maes
- **Cynhyrchu 42.6m dwsin o wyau'r flwyddyn**
- gan gyfrif am 4.4% o gyfanswm ieir y DG (4.7% yn 2015), ond gyda chyfran uwch o wyau maes.

Mae gan y sector Llaeth ac Wyau ar y cyd:

- **werthiant adwerthu Cymreig o £623m** (2016)
- **Allforion gwerth £89m** (2016) i lawr o **£91m** (2014) – Gwlad Belg, Iwerddon, Ffrainc, Yr Iseldiroedd a'r Almaen oedd y 5 prif gyrchfan (2016)
- 90 safle llaeth wedi'u cymeradwyo gan yr ASB (75 yn 2016)
- 87 safle wyau wedi'u cymeradwyo gan yr ASB, ond
- nid yw hynny'n cynnwys ffermio llaeth neu brosesu ar fferm o fewn busnes fferm sy'n bodoli

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4.9% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 11% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Is-sector Llaeth Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	60	700	8.6%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	15%	15%	-
Cyflogaeth 2016	1,000	22,000 (Prydain)	4.3%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	89%	91% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£322m	£7,172m	4.5%
GYC 2015	£79m	£1,795m	4.4%
GYC y pen 2015	£48,000	£76,400	63%
Gwerthiannau Adwerthu 2016 Kantar Worldpanel	£623m	£11,403m	5.8%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Mae cyflogaeth wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, gan ei gwneud yn anodd gweld tuedd drwyddi draw yn y data. Yn benodol, mae cyflogaeth wedi amrywio rhwng 1,600 a 1,000. Rhwng 2013 a 2014 cwmpodd lefel cyflogaeth o 1,600 i 1,000, cyn cynyddu i 1,600 eto yn 2015 a chwympo i 1,000 eto yn 2016. Cyfartaledd cyflogaeth dros y pum mlynedd diwethaf yw 1,300, sy'n fwy rhesymol o ran cynrychioli maint y sector.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyflogaeth rhwng 2015 a 2016, cynyddodd yr unedau busnes o 55 i 60, y lefel uchaf ers 2010. Mae mwyafrif helaeth y busnesau yn rhai micro neu fach (85% o'r unedau) ond mae tua 15% yn cyflogi dros 50 o weithwyr.

Cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ieir oedd yn dodwy rhwng 2014/2015 o 2.1m i 1.6m. Mae data cyfrifiad Mehefin diweddaraf yn awgrymu fod y niferoedd yn codi eto, 9% yn uwch i 1.8m. Mae gan Gymru gyfran llawer uwch o ieir maes yn dodwy na chyfartaledd y DG.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae lefelau prynu llaeth a chynnyrch llaeth (ac eithrio caws) yng Nghymru wedi parhau i ostwng yn gynt nag yn y DG.
- Yn gyferbyniad i hynny, mae hufen wedi parhau i dyfu, ac mae'r gostyngiad tymor hir mewn menyfyn wedi lleihau yng Nghymru o -21% i -9% wrth i'r DG weld twf mewn menyfyn. Ychydig o newid sydd i iogwrt a chaws.

Cyfartaledd Prynu Cynnyrch Llaeth gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Llaeth a Chynnyrch Llaeth (ac eithrio caws) <i>ml unigolyn/wythnos</i>	2,122	1,918	-10%	2,006	1841	-8%
Llaeth Sgim (hanner sgim a sgim)	1,151	1,356	18%	1,085	1153	6%
Iogwrt a Fromage Frais	146	170	16%	163	192	18%
Hufen	18	21	17%	20	24	20%
Menyfn	44	40	-9%	37	42	14%
Caws	100	102	2%	112	114	2%
Wyau*	2	2	0%	2	12	0%

* rowndio i'r wy cyfan agosaf

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu Cymru ar gynnyrch llaeth yn £623m yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, 1% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y farchnad caws yn werth £148m (i lawr 3% y flwyddyn) llaeth £182m (-2% y flwyddyn) iogwrt £85m (dim newid) a menyfn £44m.
- Roedd cyfanswm y gwariant ar llaeth 2% yn is na'r flwyddyn flaenorol wrth i siopwyr brynu llai, er gwaethaf fawr ddim newid ym mhrys yr uned.
- Roedd sefydlogrwydd yn yr aelwydydd sy'n prynu menyfn ar 77%, gyda gwariant ychydig yn is na 2015 ar £44.5m.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Roedd gwariant adwerthu ar wyau yn £45m yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, heb newid o'r flwyddyn flaenorol.



Is-sector Grawn a Startsh

Crynodeb o'r Sector

Mae gan yr is-sector Grawn a Startsh yng Nghymru:

- **87,700 hectar** o dir ar gyfer cnydau â, i fyny o 87,400 yn 2015, sy'n **6%** o'r tir amaethyddol a ddefnyddir, o'i gymharu â 43% yn Lloegr (2016) yr un fath a 2015
- gwenith yw'r prif gnwd â, sy'n cyfrif am 24% o ddefnydd tir, gyda haidd gwanwyn a gaeaf yn dilyn, gan gyfrif am 25% (2016) yr un fath â 2015
- cyflogi **1,000 o bobl** (2016) i lawr o 1,100 yn 2015
- mewn **10 uned busnes** (2016) yr un fath a 2015
- gyda **throsiant o £569m** (2015)
- **gwerthiant adwerthu o £345m** (2016)
- **GYC o £146m** (2015)
- **allforion o £56m** (2016) i **lawr o £61m** (2014) Iwerddon, Ffrainc, Gogledd America, Yr Iseldiroedd a Groeg oedd y 5 prif gyrchfan (2016) a
- mae un Melinydd o Gymru'n aelod o NABIM.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 4.7% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Grawn a Startsh

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	10	195	5.1%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	50%	30%	
Cyflogaeth 2016	1,000	10,000(Prydain)	10%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	100%	90% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£569m	£5,601m	10%
GYC 2015	£146m	£1,294m	11%
GYC y pen 2015	N/A	£127,200	-
Gwerthiannau Adwerthu 2019 Kantar Worldpanel	£345m	£5,923m	6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi gostwng o 1,100 yn 2015 i 1,000 yn 2016. Serch hynny, mae hynny'n uwch na'r 900 yn 2014. Mae nifer yr unedau busnes yn parhau'n sefydlog.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae lefelau prynu grawnfwyd brecwast wedi cynyddu yn y data diweddaraf, 7% yn is drwyddi draw (13% yn is yn flaenorol).



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

- Mae reis wedi tyfu'n gryf yng Nghymru ar 61% o'i gymharu â 19% yn y DG.
- Mae pizza yn parhau i dyfu'n gryf yng Nghymru ar 49% yn uwch na 2002/03, ar y blaen i'r DG.
- Mae grawnfwydydd cyfleus eraill wedi tyfu'n gryf yng Nghymru, i fyny 26%, gyda thwf tebyg yn y DG

Cyfartaledd Prynu Grawn a Grawnfwydydd gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Grawnfwydydd Brechwast	135	126	-7%	132	126	-5%
Reis	46	74	61%	84	100	19%
Pasta	77	82	6%	88	87	-1%
Pizza	47	70	49%	66	80	22%
Grawnfwydydd Cyfleus Eraill (cynnwys byrbrydau)	66	83	26%	73	94	20%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Parhaodd cyfanswm gwariant ar rawnfwydydd brechwast yng Nghymru i ostwng, i lawr 3.8% y flwyddyn i £95m.
- Cafwyd gostyngiad mewn bariau grawnfwyd a ffrwythau, yn dilyn twf cryf ac uchafswm o £18.7m yn 2015.
- Drwyddi draw, cafwyd gostyngiad mewn gwariant blynyddol ar basta, gyda phasta sych i lawr 8.3% i £10.6m. Ond roedd gwerthiant pasta ffres i fyny 6.5% i £7m.
- Gwelodd y farchnad reis a nwdls sawrus hefyd ostyngiad, wedi cyrraedd brig yn 2015 ar £29m. Yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, cafwyd gwerthiant o £28.4m.
- Mae'r farchnad popcorn wedi parhau i dyfu'n gryf, gyda gwariant blynyddol i fyny 31% i £5.5m yn 2016 wrth i aelwydydd brynu popcorn yn amlach, a phrynu mwy ohono.



Is-sector Bwyd Anifeiliaid

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru:

- yn cynnwys bwyd i anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes
- cyflogi **600 o bobl** (2016) i lawr o 900 yn 2015
- mewn **30 uned busnes** (2016) yr un fath a 2015
- gyda phedwar prif fusnes bwyd anifeiliaid anwes (2015)
- gyda **throsiant o £254m** (2015)
- **gwerthiant adwerthu o £170m** (2016)
- **GYC o £32m** (2015) i lawr o £43m (2014) ac
- **allforion o £21m** (2016) i **lawr o £22m** (2015) (ac eithrio grawnfwydydd heb eu melino) Yr Almaen, Iwerddon, Sweden, Y Weriniaeth Tsiec a'r Eidal oedd y 5 prif gyrchfan (2016).
- Mae nifer y busnesau canolig wedi gostwng, ac mae 80% o'r unedau yn rhai micro neu fach.
- Mae tri yn aelodau o'r Pet Food Manufacturers Association.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 3% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 5% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Bwyd Anifeiliaid

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	30	510	5.9%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	17%	17%	-
Cyflogaeth 2016	600	14,000 (Prydain)	4.3%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	92%	86% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£254m	£5,824m	4.4%
GYC 2015	£32m	£1,404m	4.3%
GYC y pen 2015	£35,600	£92,400	39%
Gwerthiannau Adwerthu 2015 Kantar Worldpanel	£170m	£2,396m	7.1%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Ar ôl blynyddoedd i gynnydd mewn cyflogaeth, mae'r data diweddaraf yn dangos gostyngiad mawr o uchafbwynt o 900 yn 2015 i 600 yn 2016. Mae nifer yr unedau busnes wedi parhau'n sefydlog ar 30 uned ers 2011. Serch hynny, cafwyd cynnydd mewn busnesau bach/micro, ond gostyngiad mewn busnesau canolig sy'n cyflogi dros 50 o weithwyr.

Data Kantar

- Roedd cyfanswm gwariant adwerthu aelwydydd Cymru ar fwyd anifeiliaid yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017 yn £170m, i lawr 5.8% y flwyddyn.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales


- Roedd gwariant bwyd cŵn yn £51.8m, £39m ar fwyd cŵn gwlyb (e.e. mewn tun) ac £85m ar fwyd cath. Roedd gwariant ar fwydydd tretio cŵn a chathod yn £32m, 8% yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector ffrwythau, llysiau a phlanhigion yng Nghymru'n:

- cyfrif am 1,628 hectar o dir (1,599 yn 2015)
- cyflogi **200 o bobl** yn prosesu (2016) (275 yn 2015)
- mewn **25 uned busnes** (2016) yr un fath a 2015
- gyda **throsiant o £35m** (2015)
- GYC o £13m** (2015)
- gwerthiant adwerthu o £787m (2016)**
- allforion o £7m** (2016) **i fyny o £6m** (2015) Iwerddon, Yr Almaen, Ffrainc, Asia a'r Iseldiroedd oedd y 5 prif gyrchfan (2016) ond
- nid yw'n cynnwys prosesu craidd ar ffermydd
- nid yw data'r cyfrifiad yn cynnwys unedau bach dan 2 hectar
- Mae Garddwriaeth Cymru'n amcangyfrif nad yw 70% o weithgaredd busnesau garddwriaeth yng Nghymru wedi'i gynnwys



Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 1% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 4.4% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Prosesu Ffrwythau a Llysiau

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	25	625	4.0%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	0%	15%	-
Cyflogaeth 2016	200	34,000 (Prydain)	0.6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	90%	93% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£35m	£5,891m	0.6%
GYC 2015	£13m	£1,937m	0.6%
GYC y pen 2015	£47,000	£59,800	79%
Gwerthiannau Adwerthu 2016 Kantar Worldpanel	£787m	£13,982m	5.6%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae arwynebedd y tir garddwriaethol wedi tyfu ychydig yn 2016 ond heb gyrraedd lefelau brig 2014 eto. Gwelwyd twf mewn stoc meithrinfeydd gwydn



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Mae nifer y swyddi prosesu wedi gostwng o lefel brif yn 2015 i 200, gan gynrychioli'r cyfartaledd swyddi dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Mae nifer yr unedau busnes wedi bod yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae lefel y ffrwythau a'r llysiau gaiff eu bwyta mewn aelwydydd yng Nghymru wedi aros yn gyson ers y llynedd, ac yn dangos dirywiad tymor hir o 6%
- Mae'r gostyngiad yn y tatws gaiff eu bwyta (yn enwedig tatws ffres) wedi parhau ac wedi cynyddu yn y DG hefyd.
- Gwelwyd cynnydd bach mewn ffrwythau yng Nghymru

Cyfartaledd Prynu Ffrwythau a Llysiau gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Llysiau Ffres ac wedi'u Prosesu (ac eithrio Tatws)	1,071	1010	-6%	1,101	1095	-1%
Tatws Ffres ac wedi'u Prosesu	1,001	709	-29%	873	676	-23%
Ffrwythau Ffres ac wedi'u Prosesu	1,026	976	-5%	1,206	1101	-9%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd cyfanswm gwariant adwerthu ar ffrwythau, llysiau a salad yn £787m yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2015, 1.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd gwariant adwerthu ar ffrwythau ffres yn £287.5m, 2.4% y flwyddyn yn is. Serch hynny, roedd cyfanswm y cyfaint 1% yn uwch. Roedd amllder prynu hefyd yn uwch. Ond gyda phris yr uned yn is y flwyddyn, roedd cyfanswm gwerthiant yn is.
- Roedd y gwariant ar salad oer wedi'u paratoi yn uwch mewn cyfaint (4%) a gwerth (12%), ond salad ar dymheredd arferol i lawr 5%.
- Roedd gwariant ar ffrwythau ffres i fyny 2.5% i £292m, gyda chyfaint, amllder a phris yr uned yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd twf cryf mewn ffrwythau a llysiau oer wedi'u paratoi, cynnydd i £59 miliwn o £51m yn y flwyddyn flaenorol.



Is-sector Bwyd Môr

Crynodeb o'r Sector

Mae gan y sector bwyd môr yng Nghymru:

- fflyd o 451 o gychod, gyda 32 dros 10m o hyd (2016) (444 cwch a 32 >10m yn 2015)
- yn glanio 6,500 tonnall o fwyd môr, gwerth £9.4m – £6.4m yn bysgod cregyn (2016) i lawr o 9,900 tonnall, gwerth £13.4m – 10.3m yn bysgod cregyn (2014)
- yn cynhyrchu 9,000 tonnall pellach o bysgod cregyn wedi'u ffermio, gwerth £9m, gan gyflogi 34 o bobl (2012 – dim diweddariad data, ond mae amcangyfrif y diwydiant yn awgrymu fod cynhyrchiant bellach oddeutu 6,500 tonnall).
- 57 safle wedi'u cymeradwyo gan yr ASB (65 yn 2015)
- **gwerthiant adwerthu o £146m** (2016)
- **allforion o £27m** (2016) i **fynd o £25m** (2015) Sbaen, Asia (De Korea yn bennaf), Ffrainc, Yr Iseldiroedd ac Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan (2016)
- yn ôl data swyddogol, yn cyflogi **100 o bobl** yn prosesu (2014) mewn **10 uned busnes** (2015)
- gyda **throsiant o £10m** (2015) a **GYC o £2m** (2015)
- serch hynny, mae'r diwydiant yn amcangyfrif fod o leiaf **65 busnes prosesu bach arall** yng Nghymru gyda llai na 10 o weithwyr (2015). Mae llawer o fwyd môr Cymru'n cael ei allforio heb ei brosesu.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 0.2% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Sector Proses Bwyd Môr Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	10	355	2.8%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	0%	19%	-
Cyflogaeth 2016	50	15,500 (Prydain)	0.3%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	86%	87% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£10m	£3,107m	0.3%
GYC 2015	£2.0m	£616m	0.3%
GYC y pen 2015	£15,400	£40,100	38%
Gwerthiant Adwerthu (2016) Kantar Worldpanel	£146m	£2,701m	5.4%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae ystadegau'r sector yn awgrymu fod cyflogaeth wedi gostwng i 50 y llynedd ar ôl cynyddu i uchafbwynt o 130 yn 2015. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, 80 oedd y cyfartaledd chyflogaeth.

Ychydig o fusnesau sydd, ac maent oll yn fach, yn cyflogi llai na 10.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Mae cyfanswm yr unedau busnes wedi parhau'n weddol gyson, serch hynny, mae angen gofal gan fod data am nifer yr unedau busnes yn cael ei rowndio i'r pump agosaf.

Mae ymchwil pysgod môr wedi dynodi nifer o broseswyr sydd heb eu cynnwys yn y data uchod.

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae'r gostyngiad tymor hir yng nghyfartaledd prynu pysgod gan aelwydydd yng Nghymru wedi parhau, a 18% yn is na 2002/3, o'i gymharu â gostyngiad o 6% yn y DG
- Mae lefelau bwyta pysgod cregyn yng Nghymru wedi gostwng 11%, o'i gymharu â gostyngiad o 4% ledled y DG.

Cyfartaledd Prynu Pysgod gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Pysgod	149	122	-18%	155	145	-6%
Pysgod Cregyn	9	8	-11%	11	10	-4%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar bysgod ffres yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017 yn £69m, 4% yn uwch y flwyddyn. Roedd gwariant ar Bysgod Cregyn 10% yn uwch na 2015, yn £10.4m. Parhaodd gwerthiant pysgod gwlyb/wedi mygu yn weddol gyson ar £44.9m
- Mae gwerthiant pysgod wedi'u rhewi wedi adfer ar ôl gostwng rywfaint yn 2015. Yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017 roedd gwerthiant yn £47m, 4% yn uwch. Roedd pysgod tun i lawr i £29m, 9% yn is y flwyddyn, gyda lleihad mewn amllder prynu yn gyrru'r gostyngiad.



Is-sector Olew a Braster

Crynodeb o'r Sector

Mae'r sector yn rhy fach i ddatgelu unrhyw ddata busnes neu gyflogaeth.

Cafwyd allforion o £2.0m (2016) i fyny o £1.8m (2015) Iwerddon, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Y Dwyrain Canol (Israel) a Sweden oedd y 5 prif gyrchfan (2016).

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae'r gostyngiad tymor hir yn y brasterau a ddefnyddir yn parhau heb newid, i lawr 21% yng Nghymru yn uwch na'r DG.
- Mae menyn wedi adfer yn gryf o -20% i -9% yng Nghymru, ond 14% yn uwch yn y DG – yr un fath â'r llynedd.
- Mae margarin heb newid ers y llynedd, gyda chynnydd tymor hir cryf.
- Mae olew llysiau a salad wedi gostwng ymhellach yng Nghymru, gan aros yn sefydlog dros y DG.

Cyfartaledd Prynu Olew a Braster gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Braster	198	157	-21%	190	163	-14%
Menyn	44	40	-9%	37	42	14%
Margarin	7	27	286%	13	19	51%
Olew Llysiau a Salad	53	42	-21%	56	56	0%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwerthiant margarin i lawr 9.4% i £32.9, £8m yn is na 2014.
- Mewn cyferbyniad, roedd gwerthiant menyn (i'w weld o dan gynnyrch llaeth) yn £44.5m, ychydig yn is na 2015, ond yn dal yn uwch na 2014.
- Roedd gwariant ar olew coginio i lawr 5.5% y flwyddyn i £17.7m.



Is-sector Cynnyrch Bwyd Arall

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector hwn yn cynnwys busnesau yn y meysydd cynhyrchu canlynol: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi a chynnyrch i gymryd lle coffi, pupur a halen a sesnin, prydau a seigiau parod, a pharatoi bwyd homogenaidd a bwyd dietegol.

Mae'r is-sector Cynnyrch Bwyd Arall yng Nghymru yn:

- cyflogi **5,500 o bobl** (2016) i lawr o 6,500 yn 2015
- mewn **90 uned busnes** (2016) i lawr o 95 yn 2015
- gyda **throsiant o £974m** (2015)
- **gwerthiant adwerthu o £781m** (2016)
- **GYC o £253m** (2015) i fyny o £207m (2014)
- **allforion o £79m** (2016) i **fyny o £65m** (2015) Iwerddon, Yr Almaen, Gogledd America, Yr Iseldiroedd a Ffrainc oedd y 5 prif gyrchfan (2016) ac
- **mae lefel uchel o arloesi** a gallu label yr adwerthwr cryf

Tra bo mwyafrif y busnesau yn fach, mae 22% yn cyflogi dros 50 o weithwyr, yn debyg i'r llynedd.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 27% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 16% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cynnyrch Bwyd Arall

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	90	1,745	5.2%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	22%	15%	-
Cyflogaeth 2016	5,500	94,000	6%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	95%	91% (Prydain)	↓
Trosiant 2015	£974m	£16,377m	5.9%
GYC 2015	£253m	£5,430m	5.9%
GYC y pen 2015	£39,000	£60,100	65%
Gwerthiant Adwerthu (2016) Kantar Worldpanel	£781m	£10,243m	8%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Yn dilyn cofnod o dwf parhaus mewn cyflogaeth, gan gyrraedd uchafbwynt o 6,500 yn 2015, mae cyflogaeth bellach wedi gostwng i 5,500, yn unol â chyfartaledd 2013 a 2014.

Mae'r mwyafrif (952%) mewn cyflogaeth llawn amser, ychydig yn fwy na lefel Prydain.

Mae nifer yr unedau busnes wedi gostwng o 95 i 90.



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Tueddiadau'r Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae pryniant siwgr a chyffaith wedi adfer rhywfaint yng Nghymru, o'r gostyngiad sylweddol sydd wedi parhau yn y DG
- Mae melysion wedi cynyddu'n gryf ers y llynedd, lle'r oedd 4% yn is drwyddi draw
- Mae picl a saws wedi parhau'n gymharol sefydlog.

Cyfartaledd Prynu Cynnyrch Arall gan Aelwydydd (gram yr unigolyn yr wythnos)

	Cymru			DG		
	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid	2002/03	Cyfartaledd 2013/15	% newid
Siwgr a Chyffaith	164	123	-25%	146	112	-23%
Picl a Saws	122	127	4%	123	128	4%
Melysion	142	147	4%	127	130	2%

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Bwyd Teulu

Data Kantar

- Roedd gwariant adwerthu ar gyffaith yng Nghymru yn £10.3m yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, i lawr 1.4%
- Roedd cyfanswm picl, sbeis bwrdd a phupur a halen i lawr 2.5% i £51m.
- Roedd cyfanswm y farchnad felysion siocled i fyny 3.4% i £167m a gwariant ar felysion siwgr yn £44.2m, ychydig yn is na 2015
- Roedd cyfanswm marchnad coginio cartref melys i lawr 6.1% i £78.9m, gyda lleihad mewn amlder prynu yn gyrru'r gostyngiad



Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru:

- yn cyflogi **10,000 o bobl** (2016) i fyny o 5,500 yn 2015
- mewn **500 uned busnes** (2016) i lawr o 505 yn 2015
- gyda **throsiant o £1,752m** (2015) i fyny o £1,444m (2014) a
- **GYC o £269m** (2015) i fyny o £237m (2014)

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 0.7% o holl gyflogaeth Cymru
- 0.41% gyfanswm unedau busnes Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	505	16,710	3.0%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	4.0%	5.3%	-
Cyflogaeth 2016	10,000	147,000 (Prydain)	6.8%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	65%	44% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£1,752m	£94,310m	2%
GYC 2015	£269m	£15,608m	2%
GYC y pen 2015	£48,900	£75,400	65%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi cynyddu'n fawr rhwng 2015 a 2016, gyda llawer o'r cynnydd yn cael ei yrru gan swyddi rhan amser sydd wedi tyfu o 950 i 3,750 yn ystod y cyfnod. Mae cynnydd mawr wedi bod mewn swyddi llawn amser hefyd, o 4,000 i 6,500.

Mae nifer yr unedau busnes wedi gostwng ychydig.

Mae gan 73% o fusnesau nai na 10 o weithwyr, yr un fath a'r llynedd.

Mae 20 busnes yn y categori 50-249 o weithwyr, yr un fath a'r llynedd.



Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod

Crynodeb o'r Sector

Mae'r Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru yn:

- cyflogi **72,200 o bobl yn rhan amser yn bennaf** (2016) i lawr o 78,200 yn 2015
- mewn **4,670 uned busnes** (2016) i lawr o 4,715 (2015)
- gyda **throsiant o £8,893m** (2015)
- **GYC o £144m** (2015) i fyny o £116m (2014) a
- **gwerthiant adwerthu o £5,396m** (Kantar 2016)

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 17% o holl unedau busnes Bwyd a Diod Cymru, yr un fath a'r llynedd
- 30% o gyfanswm cyflogaeth Bwyd a Diod Cymru i lawr o 30%

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Adwerthu

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	4,670	95,710	4.9%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr)	4.3%	4.7%	-
Cyflogaeth 2016	72,200	1.4m (Prydain)	5.1%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	30%	34% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£8,893m	£191,298m	4.6%
Cyfanswm GYC 2015	£1,358m	£34,738m	3.9%
GYC y pen 2015	£17,400	£23,600	70%
Gwerthiant Adwerthu (2016) Kantar Worldpanel	£5.396bn	£105.3bn	5.1%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron, Kantar Worldpanel

Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi gostwng 8% y flwyddyn, gyda Swyddi llawn amser i lawr 5,200 rhan amser i lawr 2,200.

Mae nifer yr unedau busnes wedi gostwng o 4,715 i 4,670.

Mae gwerthiannau adwerthu pob is-sector yn ôl trefn gwerth yng Nghymru wedi'u crynhoi yn y tabl isod ar gyfer 2013-2016 sy'n amlinellu cyfnod o ddadchwyddiant i'r rhan fwyaf o'r categorïau yn y cyfnod, gyda bwyd môr a ffrwythau a llysiau yn eithriadau:



Bwyd a Diod Cymru Food & Drink Wales

Cyfanswm Gwerthiant Adwerthu yng Nghymru 2013-2015 (Kantar Worldpanel)

	2013	2014	2015	2016	% newid 2016 yn erbyn 2015	% newid 2016 yn erbyn 2013
Cig s Chynnyrch Cig	972,048	982,640	966,712	957,022	-1.0	-1.5
Diodydd	943,916	951,465	978,290	945,665	-3.3	0.2
Ffrwythau a Llysiau	781,714	764,575	775,591	787,439	1.5	0.7
Cynnyrch Llaeth	640,471	639,564	630,016	623,437	-1.0	-2.7
Becws	510,279	506,868	509,093	508,535	-0.1	-0.3
Grawfwydydd	344,830	346,668	347,656	345,007	-0.8	0.1
Bwyd Anifeiliaid	173,697	177,508	180,340	169,911	-5.8	-2.2
Bwyd Môr	145,419	144,207	144,154	145,916	1.2	0.3
Olew a Braster	65,797	61,385	57,396	52,972	-7.7	-19.5
Arall	863,149	871,307	863,335	860,463	-0.3	-0.3
Cyfanswm	5,441,320	5,446,187	5,452,583	5,396,367	-1.0	-0.8



Is-sector Arlwyo

Crynodeb o'r Sector

Mae'r is-sector arlwyo'n cynnwys arlwyo nad yw'n breswyl, yn cynnwys bwytai a chaffis, gwasanaeth bwyd, arlwywyr symudol, bwyd parod, ac arlwyo mewn digwyddiadau.

Mae'r is-sector arlwyo yng Nghymru yn:

- cyflogi **82,500 o bobl yn rhan amser yn bennaf** (2016) i fyny o 71,500 yn 2015
- mewn **8,200 uned busnes** (2016) heb newid ers 2015
- gyda **throsiant o £2,131m** (2015)
- **GYC o £1,042m** (2015)
- Amcangyfrifir fod gwariant blynyddol ar **fwyta allan o'r cartref yn £2.8bn** (blwyddyn hyd at Ionawr 2017)

Mae bron pob busnes yn ficro neu fach (98%) gan gyflogi llai na 50 o weithwyr, ac mae gan y sector gyfran uchel o swyddi rhan amser, yn cyfrif am 69% o swyddi.

Mae'r sector yng Nghymru'n cynrychioli:

- 34% o gyfanswm cyflogaeth Bwyd a Diod Cymru
- 30% o unedau busnes diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer yr Is-sector Arlwyo

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DG (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	8,200	166,695	4.9%
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	1.6%	2%	-
Cyflogaeth 2016	82,500	1,771,500 (Prydain)	4.7%
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	32%	40% (Prydain)	-
Trosiant 2015	£2,131m	£60,268m	3.5%
GYC 2015	£1,042m	£30,488m	3.4%
GYC y pen 2015	£14,600	£17,900	82%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Hawlfraint y Goron

Tueddiadau

Mae nifer yr unedau busnes wedi sefydlogi, ar ôl adfer ar ôl cyfnod o ddirywiad bychan.

Mae cyflogaeth hefyd wedi cynyddu'n gryf yn y flwyddyn ddiwethaf, i fyny 15%.

Mae gwariant 'allan o'r cartref' ym Mhrydain wedi cynyddu 3.7% y flwyddyn, sy'n cyfateb i £47bn.

Cynyddodd gwariant 'allan o'r cartref' yng Nghymru 7.8% y flwyddyn i £2.8bn, wedi'i yrru gan gynnydd cryf mewn gwariant ar wasanaeth bwyd, gyda chynnydd mewn gwariant yr uned, ac amllder prynu.



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Ymwadiad

Lluniwyd y crynodeb hwn o ystadegau gan Brookdale Consulting rhwng Gorffennaf a Hydref 2017.

Tra bo'r ffeithiau wedi'u gwirio'n drwyadl, ni all Brookdale Consulting na Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw ddifrod neu golled a geir yn sgil unrhyw wall anfwriadol yn yr adroddiad hwn.